# Cadw'n ddiogel




Mae troseddau Ffestiniog fesul 1,000 o'r boblogaeth 16 a hŷn wedi cynyddu ychydig rhwng 2018 a 2020 o 91 i 110. Mae hyn hefyd yn uwch nag oedd yn yr asesiad llesiant diwethaf yn 2015, gyda'r ffigwr yn 96 bryd hynny.

Yng Ngwynedd, mae 55% yn teimlo'n ddiogel iawn a 34% yn teimlo'n eithaf diogel yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu. Yn ogystal mae 89% yn teimlo'n ddiogel iawn a 10% yn teimlo yn eithaf diogel yn y cartref ar ôl iddi dywyllu yng Ngwynedd. Mae mwy o bobl yn teimlo yn ddiogel iawn yn eu hardal leol neu yn y cartref ar ôl iddi dywyllu yng Ngwynedd na Chymru gyfan.

Fodd bynnag, amlygwyd diogelwch cymunedol a chamddefnyddio sylweddau fel pryderon gan drigolion Ffestiniog yn ystod ymarferiad 'sgyrsiau stepen drws' gan gymdeithas dai Adra.

**Ar gyfartaledd rhwng 2017/18-2019/20 roedd 14 achos tân bwriadol y flwyddyn yn ardal Ffestiniog a 22 achos tân damweiniol.** Yng Ngwynedd, roedd 113 achos tân bwriadol y flwyddyn a 335 achos tân damweiniol dros yr un cyfnod. Ar gyfer Ffestiniog a Gwynedd mae'r ffigwr achos tân damweiniol yn is na'r asesiad diwethaf, a'r ffigwr achos tân bwriadol yr un fath yn Ffestiniog ond ychydig yn uwch yng Ngwynedd.



**36** achos tân yn ardal Ffestiniog

# Cadw mewn cysylltiad

**Mae gan 74% o gartrefi yn ardal Ffestiniog gar neu fan**, sy'n is na'r ffigwr ar gyfer Gwynedd, sef 79% a 77% ar gyfer Cymru gyfan.



**74%** o gartrefi gyda char neu fan ardal Ffestiniog

Mae amser teithio cyhoeddus a preifat dwyffordd i siop fwyd yn uwch yng Ngwynedd na Chymru gyfan, gydag amser cyfartalog o 40 munud a 6 munud i gymharu gyda 32 munud a 4 munud. Mae amrywiaeth o fewn ardal Ffestiniog, lle mae amser teithio preifat a cyhoeddus cyfartalog Trawsfynydd yn hirach na Wynedd tra bod Diffwys a Maenofferen, Bowyedd a Rhiw a Teigl yn is.

Roedd diffyg trafnidiaeth gyhoeddus yn brif themau i godi yn ystod sgyrsiau gyda grwpiau a mudiadau Ffestiniog. Yn benodol, mynegwyd ei fod yn anodd mynd i weithio ac i siopau i drefi cyfagos oherwydd prinder gwasanaethau bws. (Ardal Ni 2035)

